Rhifyn 3, Tachwedd 2020

Cylchgrawn Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

# yr Athro



# Covid-19: Yma i aros

Gyda'r rhan helaeth o'r flwyddyn dan gysgod Covid-19, mae'r misoedd nesaf yn debygol o barhau i fod yn rhai heriol.

Mae llu o benderfyniadau anodd wedi'u gwneud sy'n dylanwadu ar sut mae addysg yn cael ei darparu yn ein hysgolion, colegau a phrifysgolion.

Y gamp yw ceisio cydbwyso'r risgiau sydd ynghlwm wrth gadw dysgwyr adref gyda'r risgiau sydd ynghlwm wrth ddod â staff a dysgwyr ynghyd, wyneb-yn-wyneb. Ac ar ben hynny, mae angen gwneud hynny mewn ffordd sy'n parhau i gynnig popeth y mae gwasanaeth addysg gyhoeddus i fod i'w gynnig, ac ar delerau sy'n deg i bob dysgwr, yn rhesymol i addysgwyr – ac yn ymarferol bosib.

Ers cychwyn yr argyfwng, mae Llywodraeth Cymru wedi trafod y sefyllfa a'r penderfyniadau y bu angen eu cymryd gyda'r undebau.

Yn fwy diweddar, mae'r trafodaethau hynny wedi cynnwys yr awdurdodau lleol o gwmpas yr un bwrdd. Mae hynny wedi bod yn gam pwysig i'r cyfeiriad iawn. Mae Ysgrifennydd Cyffredinol UCAC, Dilwyn Roberts-Young, wedi cadeirio nifer o'r cyfarfodydd hyn yn sgil ei rôl fel Is-gadeirydd ac Ysgrifennydd yr undebau.

Mae swyddogion UCAC wedi bod mewn cyfarfodydd dirifedi'n wythnosol ers mis Mawrth, gan wneud awgrymiadau adeiladol ynghylch y ffordd ymlaen a chodi pryderon ar ran ein haelodau. Cofiwch godi'ch llais ar unrhyw adeg os oes mater sy'n eich pryderu chi: ucac@ucac.cymru

Mae penderfyniadau pwysig i'w gwneud dros y cyfnod i ddod – nid lleiaf ynghylch yr asesiadau a ddaw yn lle arholiadau haf 2021, ond yn ogystal ynghylch cyfnodau clo pellach.

Mae'r gweithlu addysg wedi bod yn barod i fynd y filltir ychwanegol er mwyn sicrhau darpariaeth a diogelwch. Ond nid yw 'mynd y filltir ychwanegol' yn gynaliadwy fel model tymor hir.

Gan ein bod ni'n mynd i fod yn cyd-fyw gyda Covid-19 am gyfnod estynedig i ddod, un o brif flaenoriaethau UCAC yw sicrhau nad oes erydiad tymor hir i amodau gwaith athrawon a darlithwyr.

Mae rhesymau dros y seibiau sy'n rhan o'r diwrnod, yr wythnos a'r flwyddyn academaidd. Ni fydd gweithlu sydd ar ei liniau – yn feddyliol, emosiynol neu'n gorfforol - o unrhyw werth i ddysgwyr.

Bydd UCAC yn brwydro i sicrhau fod y trefniadau ar gyfer y cyfnod i ddod mor ddiogel ac mor gynaliadwy â phosib. Heb addysgwyr, nid oes addysg.

tudalen 6
Cyfle i ennill iPad!

t3 Cyflog athrawon
t4 Addysg Bellach ac Uwch
t6-7 Adnoddau

# Dyfodol trochi?

Mae **Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru)** yn mynd trwy brosesau craffu'r Senedd ar hyn o bryd.

Cafodd y Bil ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf a'r bwriad yw ei fod yn cwblhau ei daith cyn diwedd tymor y Senedd hon ym mis Mai 2021.


Nid yw'r Bil yn mynd i fanylder ynghylch y cwricwlwm newydd. Yn hytrach mae'n canolbwyntio ar yr elfennau statudol fel y 4 Diben, y 6 Maes Dysgu a Phrofiad ac yn rhoi cyfrifoldeb ar Lywodraeth Cymru i lunio Cod Yr Hyn sy'n Bwysig, Cod Cynnydd, a Chod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.

Ar y cyfan, nid yw'r Bil yn ddadleuol; mae'n ymgorffori egwyddorion sydd wedi'u cydnabod a'u cytuno ar draws y system addysg ers tro.

Ond, mae un maes sydd **wedi tanio ymateb tanbaid gan UCAC** a gan fudiadau eraill, sef addysg drochi hyd at 7 oed.

Yr hyn mae'r Bil yn ei wneud yw creu pedair elfen 'fandadol' o fewn y Meysydd Dysgu a Phrofiad sef:

- Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb
- Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg
- Cymraeg
- Saesneg



Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) i

DOGFENNAU SY'N MYND GYDA'R BIL
Caiff Nodiadau Esboniadol a Memorandwm Esboniadol eu hargraffu ar wahân.

Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru)
[FEL Y'I CYFLWYNWYD]

CYNNWYS

RHAN 1

CYSYNIADAU SYLFAENOL A DOGFENNAU ALLWEDDOL

1 Cyflwyniad
2 Y pedwar diben
3 Y meysydd dysgu a phrofiad
4 Y sgiliau trawsgwricwlaidd mandadol
5 Pŵer i ddiwygio adrannau 3 a 4
6 Cod yr Hyn sy'n Bwysig
7 Y Cod Cynnydd
8 Y Cod ACRh

RHAN 2

CWRICWLWM MEWN YSGOLION A GYNHELIR, YSGOLION MEITHRIN A GYNHELIR AC ADDYSG FEITHRIN A GYLLIDIR OND NAS CYNHELIR

PENNOD 1

CYNLLUNIO A MABWYSIADU CWRICWLWM

*Cyffredinol*

9 Cyflwyniad a dehongli

*Ysgolion a gynhelir ac ysgolion meithrin a gynhelir*

10 Cynllunio cwricwlwm
11 Mabwysiadu cwricwlwm
12 Adolygu a diwygio cwricwlwm

*Addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir*

13 Dyletswydd Gweinidogion Cymru i gyhoeddi cwricwlwm
14 Adolygu a diwygio cwricwlwm a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru
15 Mabwysiadu cwricwlwm
16 Adolygu a diwygio cwricwlwm

*Darpariaeth atodol*

17 Pŵer i wneud darpariaeth atodol ynghylch mabwysiadu a diwygio cwricwlwm
18 Pŵer i wneud darpariaeth atodol ynghylch crynodebau cwricwlwm

GB/23/20

**Sgil-effaith hyn yw gwneud y Saesneg yn orfodol hyd yn oed yn yr hyn fydd yn cyfateb i'r Cyfnod Sylfaen, sef y Blynyddoedd Cynnar hyd at 7 oed.**

Mae'r Bil wedyn yn cynnig cyfle i 'ddatgymhwyso Saesneg fel elfen fandadol' hyd at 7 oed – a'r pŵer i wneud hynny yn nwylo pennaeth a chorff llywodraethu – ar yr amod "ei bod yn briodol gwneud y penderfyniad er mwyn datblygu neu gynnal lefelau rhuglder disgyblion yn y Gymraeg".

Rydym yn rhagweld llu o broblemau yn deillio o hyn, yn arwain at lai o addysg drochi, ac yn y pendraw at lai o siaradwyr rhugl. Dyma ymateb UCAC i'r ymgynghoriad ar y Bil sy'n gosod y dadleuon mewn manylder.

Mae UCAC wedi bod yn lobïo'n galed i sicrhau gwelliant i'r Bil, ac yn synhwyro fod parodrwydd i ystyried gwneud hynny. Ar 21 Hydref, dywedodd y Gweinidog Addysg wrth y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg:

> "I am very clear, and I have been very clear, on the value of Welsh immersion, and I am very keen to avoid any possible unintended consequences for the principle of immersion arising out of the way that the Bill is currently drafted... it is my intention to bring forward amendments to address the concerns that you and others have raised."

**DIWEDDARIAD:** Mae Llywodraeth Cymru'n cynnal arolwg byr am y cynnig o newid yr oedran y byddai'r Saesneg yn dod yn fandadol o 3 oed i 7 oed. Byddai'n dda cael gymaint o ymateb â phosib erbyn y **dyddiad cau ar 4 Rhagfyr** - felly ewch ati i fynegi'ch barn! https://www.smartsurvey.co.uk/s/UIYLI7/


## Bwrdd Golygyddol

**Llywydd Cenedlaethol:** Julia James
**Is-Lywydd:** Eirlys Edwards
**Ysgrifennydd Cyffredinol:** Dilwyn Roberts-Young
**Cydlynydd Yr Athro:** Rebecca Williams

**Nid yw cynnwys Yr Athro o angenrheidrwydd yn farn swyddogol UCAC.**

Os hoffech gyfrannu at y cylchgrawn hwn, mae croeso i chi anfon unrhyw syniadau neu erthyglau at: ucac@ucac.cymru

Croesewir hefyd unrhyw awgrymiadau, syniadau neu sylwadau am *Yr Athro*.

# Ta-ta Kirsty!


Ar 27 Hydref cyhoeddodd Kirsty Williams AS na fydd hi'n ail-sefyll yn etholiadau'r Senedd flwyddyn nesaf.

Hi yw un o'r ychydig Aelodau o'r Senedd sydd yno ers y cychwyn cyntaf, wedi'i hethol nôl yn 1999, ac mae hi wedi gwasanaethu fel Gweinidog Addysg ers 2016.

Ers dod yn Weinidog Addysg, mae hi wedi dod yn wyneb cyfarwydd yng Nghynadleddau Blynyddol UCAC. Mae hi wedi ennyn ymateb gwresog gan aelodau yn sgil ei siarad plaen a'i brwdfrydedd dros ymateb i ba bynnag cwestiynau sy'n dod o'r gynulleidfa.

Mae swyddogion UCAC wedi cwrdd â hi'n gyson trwy ei chyfnod fel Gweinidog ac wedi gwerthfawrogi ei pharodrwydd i wrando ac i drafod – rhywbeth nad yw'n nodwedd o bob Gweinidog!

Hi yn ynad neb sydd wedi gyrru'r broses o ddiwygio'r cwricwlwm yng Nghymru – i greu'r cwricwlwm gwirioneddol Gymreig cyntaf erioed. Yn ogystal, hi sydd wedi arwain y diwygiadau sylweddol i'r drefn Anghenion Dysgu Ychwanegol – ac wrth gwrs, datganoli'r grym dros dâl ac amodau gwaith athrawon i Gymru.





Ond mae chwech mis ar ôl yn y swydd - felly digon o amser i barhau i drafod, cydweithio a dylanwadu er budd athrawon Cymru.

# Buddugoliaethau

Daeth cadarnhad ar 14 Hydref o ddyfarniad cyflog Llywodraeth Cymru ar gyfer athrawon yn y flwyddyn ysgol 2020-21.

I grynhoi:

- cynnydd o 3.75% i'r brif raddfa gyflog
- cynnydd o 8.48% i isafswm y brif raddfa gyflog (Athrawon Newydd Gymhwyso)
- cynnydd o 2.75% i'r raddfa gyflog uwch, y raddfa gyflog arweinyddiaeth a phob lwfans




Felly bydd eich cyflog rhywfaint yn uwch o fis Tachwedd ymlaen o ganlyniad i'r dyfarniad cyflog. Wrth gwrs, mae'n bwysig nodi y byddwch yn derbyn ôl-daliad ar gyfer mis Medi a mis Hydref.

Er bod yr uchod yn newyddion da, mae'n bwysig nodi yn ogystal bod sawl **buddugoliaeth i UCAC** o ran trefniadau cyflog, sef:

- **ailgyflwyno graddfeydd cyflog statudol cenedlaethol:** hynny yw, graddfeydd gyda phwyntiau penodol yn hytrach nag 'ystodau' gydag isafswm ac uchafswm yn unig a hyblygrwydd/pwyntiau 'cynghorol' rhwng y ddau
- **dileu trefniadau tâl ar sail perfformiad:** dylai athrawon symud i fyny un pwynt ar y graddfeydd cyflog cenedlaethol, oni bai eu bod yn destun gweithdrefnau medrusrwydd
- **ailgyflwyno darpariaethau hygludedd cyflog fel gofyniad statudol o fis Medi 2021:** er mwyn sicrhau fod athrawon yn cadw lefel eu cyflog ar sail profiad hyd yn oed os ydynt yn newid swydd

**Fel undeb, rydym wedi bod yn brwydro'n hir i sicrhau'r camau hyn sy'n rhoi sefydlogrwydd cyflog i athrawon ac yn ymfalchïo eu bod bellach yn statudol.**

Fodd bynnag, **mae'n siom nad yw'r 3.75% wedi ei sicrhau i bob athro, yn enwedig y rhai profiadol ohonoch sydd ar y Raddfa Gyflog Uwch neu yn y Grŵp Arweinyddiaeth**. Yn amlwg, byddwn fel undeb yn parhau i bwyso i sicrhau bod dod yn arweinydd, ar bob lefel, yn derbyn cydnabyddiaeth haeddiannol.

**Cylch Gorchwyl 2020-21**
Mae bellach yn amser troi ein golygon at y cylch nesaf o drafodaethau ynglŷn â chyflog ac amodau gwaith.

Rydym fel undeb wedi bod yn tynnu sylw ers blynyddoedd at yr angen i wella amodau er mwyn lleihau'r pwysau gwaith sydd ar bob un ohonoch, e.e. materion rheoli amser, gan gynnwys CPA.

Yn ogystal, mae UCAC wedi sicrhau bod sylw penodol yn cael ei roi:

- i'r **Lwfans Anghenion Addysgol Arbennig**, a hynny yn sgil y ffaith fod rôl Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol yn dod yn statudol o fis Ionawr 2021 ymlaen; gwyddom fod anghysondeb difrifol yn y ffordd y caiff y lwfans ei ddyfarnu
- i'r gydnabyddiaeth sy'n cael ei roi i **benaethiaid sydd â chyfrifoldeb dros sawl ysgol**; unwaith eto, dyma faes sy'n cael ei nodweddu gan anghysondeb a diffyg eglurder

Cofiwch gysylltu os oes gennych unrhyw sylwadau neu dystiolaeth y gallwn ei gyflwyno i'r corff dyfarnu.

Dyma ddolen i Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol 2020

# Arian ychwanegol i Addysg Uwch

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi eu bod yn darparu £10 miliwn ychwanegol i brifysgolion er mwyn cefnogi myfyrwyr a staff yn ystod y pandemig.

Bwriad y cyllid yw cefnogi gweithgareddau fel mwy o wasanaethau iechyd meddwl a chronfeydd caledi ariannol i fyfyrwyr. Bydd hefyd yn helpu prifysgolion i gryfhau eu gwasanaethau cymorth i fyfyrwyr, gan gynnwys gwasanaethau bwyd i fyfyrwyr sy'n gorfod hunanynysu.

Bydd y cyllid yn helpu i gynyddu capasiti undebau myfyrwyr a phrifysgolion i roi cyngor a chymorth i fyfyrwyr a staff, gan ganolbwyntio ar gymorth iechyd meddwl. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau ar-lein a chymorth drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd y cyllid yn cael ei reoli gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) ac mae'n ychwanegol at y Gronfa Buddsoddi ac Adfer Addysg Uwch (£27miliwn) gyhoeddwyd yn yr haf.

Cofiwch fod canllawiau Llywodraeth Cymru i brifysgolion ynghylch gweithredu'n ddiogel yn ystod y cyfnod hwn yn cael eu diweddaru'n gyson. Mae'r fersiwn ddiweddaraf (2.2) a gafodd ei ddiweddaru ar 19 Hydref 2020 ar gael yma: Diogelu Cymru: canllawiau COVID-19 ar gyfer addysg uwch

# Hawliad tâl Addysg Bellach

Ym mis Mehefin eleni cyflwynodd y cyd-undebau llafur addysg bellach ein hawliad tâl ar gyfer staff y sector ar gyfer 2020-2021. Roedd yr hawliad yn gofyn am godiad cyflog sylweddol ar bob graddfa gyflog a'r codiad hynny uwchben graddfa chwyddiant.

Mae ColegauCymru ar ran colegau addysg bellach yng Nghymru wedi cynnig y codiad cyflog canlynol gan ofyn i'r Gweinidog Addysg sicrhau fod cyllid ychwanegol yn cael ei ddyfarnu i'r colegau er mwyn ariannu'r codiadau cyflog hynny. Nododd ColegauCymru yn eu llythyr i'r cyd-undebau llafur addysg bellach eu bod yn ymrwymedig i sicrhau yr un codiad cyflog i'r sector ag sydd i staff ysgolion.

Yn hynny o beth y codiadau cyflog sy'n cael eu cynnig yw:

- Staff Cymorth Busnes - 2.75%
- Staff sydd ar Bwynt 1 y Brif Raddfa - 8.48%
- Staff sydd ar bwyntiau eraill y Brif Raddfa - 3.75%
- Staff sydd ar y Raddfa Gyflog Uwch - 2.75%
- Rheolwyr - 2.75%

Fe gytunodd Cyngor Cenedlaethol UCAC yn ei gyfarfod ar 5 Tachwedd y byddai UCAC yn fodlon derbyn y cynnig hwn a bydd hyn yn cael ei adrodd yn ôl i'r cyd-undebau llafur addysg bellach.

Mae cyfarfod gyda ColegauCymru ar 11 Tachwedd er mwyn trafod ymhellach. Unwaith bydd cadarnhad pendant am y codiad cyflog byddwn yn rhannu'r wybodaeth gyda chi yn y syth.

Cofiwch fod canllawiau Llywodraeth Cymru i golegau addysg bellach ynghylch gweithredu'n ddiogel yn ystod y cyfnod hwn yn cael eu diweddaru'n gyson. Mae'r fersiwn ddiweddaraf a gafodd ei ddiweddaru ar 19 Hydref 2020 ar gael yma:
Canllawiau gweithredol: addysg bellach ac ôl-16

Os oes gyda chi unrhyw bryder am unrhyw agwedd o'ch amodau gwaith yn ystod y cyfnod hwn peidiwch oedi cysylltu gydag UCAC ar ucac@ucac.cymru. Rydym yn llwyr ddeall fod y cyfnod hwn yn un heriol eithriadol ac rydym bob amser yma i chi.

# Hapus

Efallai y cofiwch chi fod aelodau UCAC wedi cael cyfle i ennill print 'Hapus' gan Elin Vaughan Crowley yn rhifyn diwethaf Yr Athro. Dyma rai o'r enillwyr hapus!




*Sioned Evans*




*Dawn Latham*




*Sara Mair*




# Cynnig arbennig i athrawon

O'r 2 Tachwedd ymlaen, tan ar ôl Nadolig, bydd siopau Morrisons yn cynnig **gostyngiad o 10%*** i athrawon a staff ysgolion, colegau dosbarth chwech, colegau addysg bellach a meithrinfeydd.

Dim ond dangos eich llun adnabod ysgol/coleg wrth dalu sydd ei angen i hawlio'r gostyngiad.

Dywed David Potts, Prif Weithredwr Morrisons "Mae athrawon a staff ysgol yn wynebu llawer o heriau ac nid yw addysg ein plant erioed wedi bod mor bwysig. Dyma ffordd Morrisons o fynegi diolch iddynt am addysgu a chefnogi'n plant."

Yn ogystal, bydd modd i'r gweithwyr hyn siopa yn ystod yr 'awr neilltuol', ynghyd â gweithwyr y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, rhwng 6 a 7 y bore, dydd Llun i ddydd Sadwrn, cyn bod y siopau'n agor i gwsmeriaid eraill.

*Nid oes modd defnyddio'r gostyngiad i brynu alcohol, tybaco, meddyginiaeth na llaeth/fformiwla babanod; nid yw'r gostyngiad ar gael arlein. Ceir hyd i'r telerau llawn fan hyn: https://my.morrisons.com/teachers

## CYFARFODYDD SIROL

### TYMOR YR HYDREF

Dewch i ymuno â'ch Swyddog Maes mewn cyfarfod ar-lein i drafod y diweddaraf ym myd addysg.


| Dyddiad | Sir |
|---|---|
| 16 Tachwedd | Conwy |
| 17 Tachwedd | Sir Benfro |
| 17 Tachwedd | Mynwy, Torfaen a Chasnewydd **5:15 o'r gloch |
| 18 Tachwedd | Gwynedd |
| 19 Tachwedd | Caerdydd **6:15 o'r gloch |
| 23 Tachwedd | Wrecsam |
| 23 Tachwedd | Sir Gâr |
| 24 Tachwedd | Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful |
| 26 Tachwedd | Powys |
| 26 Tachwedd | Sir Ddinbych |
| 2 Rhagfyr | Pen-y-bont ar Ogwr |
| 2 Rhagfyr | Castell Nedd Port Talbot ac Abertawe |
| 7 Rhagfyr | Sir y Fflint |
| 7 Rhagfyr | Ceredigion |
| 10 Rhagfyr | Ynys Môn |
| 10 Rhagfyr | Bro Morgannwg |
| 14 Rhagfyr | Blaenau Gwent a Chaerffili |

4:15 o'r gloch
AR-LEIN DRWY ZOOM

CYSYLLTWCH Â NI AR:
UCAC@UCAC.CYMRU
AM FWY O WYBODAETH

# Pymps...Daps... ’Sgidia dal adar...Trenyrs..!

Daeth dau athro golygus o’r canolbarth â’u talentau anhygoel ynghyd i weithio ar gyfres o nofelau i bobol ifanc. Daeth *Brenin y Trenyrs,* nofel gan Pryderi Jones a’r lluniau gan Huw Richards allan ddiwedd Awst a’i gwneud hi i ddeg uchaf Gwerthwyr Gorau y Cyngor Llyfrau fis Medi.




Ymgais ydyw gan y ddau aelod o UCAC, i greu deunydd cyfoes sy’n trafod pethau cŵl y byd yn Gymraeg.

“Roeddwn i wrth fy modd efo trenyrs erstalwm” meddai Pryderi Jones “a threuliais sawl pnawn Sadwrn yn edmygu, yn bodio ac yn arogli trenyrs drudfawr siopau chwaraeon Rhyl a Llandudno! Dyma stori felly am fachgen sydd wrth ei fodd efo trenyrs! Mae o’n ysu am gael pâr o’r trenyrs adidas gorau sydd yn siop ‘sgidiau fwyaf cŵl y dre, ‘SgidLocyr. Coeliwch fi, nid tasg hawdd ydy cael trenyrs eich breuddwydion a hwythau’n costio ffortiwn!”

Huw Richards yw’r artist sy’n gyfrifol am y clawr deniadol ac yn y llyfr mae deg llun arall ganddo sy’n ychwanegiad sylweddol iawn at naws a direidi’r llyfr. “Mae gan bob llyfr da i bobl ifanc luniau ynddo” meddai Huw Richards” a dwi’n meddwl fod pobol ifanc yn gwerthfawrogi’r elfen weledol yma sy’n ategu’r testun ac o bosib yn ychwanegu elfennau eraill at y stori.”

Cafwyd ymateb arbennig o dda i’r nofel gyntaf yn y gyfres:

“Beth faswn i di roi am lyfr fel yna i’w argymell i blant yr ysgol pan oeddwn i’n athrawes?!” Eleri Llwyd

“Fe gefais wir fwynhad o ddarllen y stori hyfryd, gynnes a chyffrous hon...mae’r arlunwaith penigamp yn codi gwên ac yn ychwanegu at naws y stori.” Manon Steffan Ros

“Mae plant a phobol ifanc yn dweud fod llyfrau Cymraeg yn rhy serious, ac yn galw am fwy o hiwmor! (Gweler adroddiad Rosser 2017) Dyma awdur sydd wedi gwrando ar y gynulleidfa.” Gwefan Sôn am Lyfra

Bydd yr ail nofel yn y gyfres, *Kaiser y Trenyrs* i’w chael yn fuan.

**★ CYSTADLEUAETH ARBENNIG ★**

## Cyfle i aelodau presennol a newydd ennill ipad →




APPLE 10.2" iPad (2020) - 128 GB

Os ydych chi’n aelod gydag **UCAC**
↳ beth am recriwtio aelod/au newydd?

- **Am bob aelod newydd byddwch chi’n recriwtio bydd eich enw chi ac enw’r aelod newydd yn mynd mewn i’r gystadleuaeth.**
- **Gall yr aelod newydd fod yn athro dan hyfforddiant neu’n athro/tiwtor/darlithydd**

**Bydd y gystadleuaeth yn rhedeg rhwng:**


✳ 16 Tachwedd a 21 Chwefror 2021

**Bydd yr enillydd yn cael ei gyhoeddi:**

✳ 1 Mawrth 2021

**DILYNWCH Y LINC ISOD I GOFRESTRU:**
https://www.ucac.cymru/ymaelodi2020

# Llyfrau iechyd meddwl a lles i blant




Cafodd cynllun newydd ei lansio yng Nghymru ym mis Hydref 2020 i helpu plant i ddeall a rheoli eu hiechyd meddwl a'u lles drwy ddarllen.

Mae'r cynllun **Darllen yn Well: Llyfrau ar Bresgripsiwn i blant** yn cynnwys 21 o gyfrolau yn Gymraeg a 33 yn Saesneg sy'n mynd i'r afael â rhai o'r prif heriau sy'n wynebu plant heddiw.

Mae'r llyfrau ar y rhestr yn trafod pynciau fel gorbryder a galar, bwlio a diogelwch ar y we, a sut i ddelio â digwyddiadau yn y newyddion. Maen nhw hefyd yn edrych ar sut i fyw yn well gydag ystod o gyflyrau ar ôl diagnosis, gan gynnwys Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd (ADHD), Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth (ASD), dyslecsia ac anableddau corfforol.

Anelir y rhestr at blant Cyfnod Allweddol 2 ac mae'n cynnwys teitlau sy'n addas ar gyfer ystod eang o lefelau darllen, er mwyn cynnig cymorth i ddarllenwyr llai hyderus, ac i annog plant i ddarllen gyda'u brodyr a'u chwiorydd a'u gofalwyr.

Datblygwyd y rhaglen **Darllen yn Well: Llyfrau ar Bresgripsiwn i blant** gan weithwyr iechyd proffesiynol yn ogystal â phlant a'u teuluoedd, ac fe'i chyflwynir yng Nghymru gan elusen *The Reading Agency* mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a llyfrgelloedd cyhoeddus.

Gall llyfrau sydd ar y rhestr gael eu hargymell gan weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol, athrawon ac unrhyw un arall sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd.

Mae'r casgliadau o lyfrau ar gael i'w benthyca am ddim o lyfrgelloedd cyhoeddus lleol, ac mae'r Asiantaeth Ddarllen yn gweithio gyda Chyngor Llyfrau Cymru er mwyn sicrhau bod llyfrau sydd ar y rhestr ar gael yn Gymraeg.

Mae tair cyfrol eisoes ar gael (*Rhywbeth Drwg ar Waith, Ga i Son am ADHD*, a *Trechu Pryder*) gyda'r gweddill ar gael erbyn y Gwanwyn.

**Gwybodaeth ychwanegol:**
reading-well.org.uk/cymru

# Adnodd newid hinsawdd – galw am gyfranwyr!

Bydd grŵp cymunedol Ynni Sir Gâr yn mynd ati i greu adnodd newydd sbon i athrawon go gyfer Cyfnod Allweddol 3 a 4 yn y flwyddyn newydd.

Mi fydd yr adnodd ar lein yn datblethu heriau newid hinsawdd i ddisgyblion, a sut allent gyfrannu tuag at atebion lleol fel modd o osgoi, neu liniaru sgil effeithiau yr her fwyaf sydd yn ein wynebu yn rhyngwladol.

Os oes diddordeb gan unrhyw addysgwr i gyfrannu tuag at ddatblygu'r adnodd, cysylltwch â'r Swyddog Datblygu drwy'r ebost: sioned@ynnisirgar.org

# Lles a gofal am staff ysgol

Mae UCAC wedi gweithio'n agos gydag elusen Education Support dros nifer o flynyddoedd ac roedd gennym ran allweddol yn eu cynhadledd ddiweddar: Lles yng Nghymru: Athrawon a Staff Cymorth.

Yn ystod y Gynhadledd roedd Julia James, Llywydd Cenedlaethol UCAC, yn cadeirio cyfarfod dan arweiniad ein cyn Is-lywydd Cenedlaethol Aeron Rees sy'n Bennaeth Cwricwlwm a Lles gyda Chyngor Sir Gâr.

Roedd y cyfarfod rhithwir yn gyfle i gael mewnwelediad i'r modd mae un awdurdod lleol wedi llunio strategaeth hybu lles ar gyfer ei gymuned ysgol, gan:

- addasu darpariaeth cyn-cyfnod cloi gan ymateb yn rhagweithiol i'r pandemig Covid
- ddatblygu rhaglen er mwyn cefnogi arweinwyr ysgol a'r gweithlu ehangach
- gymryd camau pendant er mwyn cefnogi disgyblion trwy gyfrwng cwricwlwm adfer

Mae modd gwylio cyflwyniadau'r gynhadledd wrth gofrestru ar wefan yr elusen: https://www.educationsupport.org.uk/lles-yng-nghymru